COFNODION CYFARFOD Y CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD GWENER, 6 MAWRTH 2020, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd RE Young – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| G Cox | S Edwards | G John | JC Spanswick |
| R Turner | E Venables | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JE Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Philip Beaman | Rheolwr Man Gwyrdd a Gwasanaethau Profedigaeth |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |
| Eilish Thomas | Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol a Chau |

65. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

66. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: I dderbyn Cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo â'r dyddiad 13 Medi 2019, fel cofnod gwir a manwl gywir.

67. UWCHRADDIO SYSTEM GYFRYNGAU A CHERDDORIAETH GYFRIFIADUROL Y CAPEL

Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad, a'i ddiben oedd cynghori'r Cyd-bwyllgor ar y gwelliannau gofynnol i systemau cyfryngau a cherddoriaeth gyfrifiadurol Capel Crallo a Chapel Coety yn Amlosgfa Llangrallo a cheisio cymeradwyaeth i wario ar gael rhai newydd yn eu lle, er mwyn darparu cyfleuster mwy modern i ddefnyddwyr y gwasanaeth profedigaeth.

Darparodd yr adroddiad ychydig o wybodaeth gefndirol, ac yn dilyn hynny, cynghorodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod Wesley Media Ltd wedi datblygu cynhyrchion a rhaglenni arbenigol addas i amlosgfeydd sy'n bodloni disgwyliadau pobl mewn galar yn yr 21ain Ganrif. O ystyried ei ddibynadwyedd profedig yn y maes arbenigol hwn caiff ei ddefnyddio gan y rhan fwyaf o Amlosgfeydd y DU a gan bob un o'r Amlosgfeydd gerllaw, fel y cyfeirir ato ar ffurf pwynt bwled ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

Aeth Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth ymlaen i gadarnhau bod Wesley Media yn darparu pecyn caledwedd cyfrifiadurol addasedig arbenigol i bob capel, wedi'i lwytho â meddalwedd weithredol gyda mynediad at ystod ddiddiwedd o gerddoriaeth yn cynnwys arddulliau cyfoes, emyn-donau a chlasurol. Mae'r feddalwedd hefyd wedi'i rhyngwynebu i sicrhau nad oes lle ar gyfer camgymeriadau. Mae Wesley Media hefyd yn darparu recordiadau USB o wasanaethau angladd ac yn trefnu gweddarllediadau ar gyfer y rheiny nad ydynt yn gallu mynychu'r gwasanaeth angladd. Yn ogystal mae'n darparu teyrngedau gweledol sydd wedi'u teilwra i ofynion teuluoedd

mewn galar, y gellir eu lawrlwytho ar gyfrifiadur cerddoriaeth i gapeli Wesley Media i'w chwarae ar eu sgriniau teyrnged-gytûn. Ychwanegodd y rhoddir sylw i bob agwedd ar y gwasanaeth angladd, o drefn y gwasanaeth i acwsteg y lleoliad unigol, i natur sensitif seremonïau personol.

Ychwanegodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth, er bod cerddoriaeth organ yn dal i fod yn gyfeiliant poblogaidd i wasanaethau a bod yr holl ganu emynau yn cael ei gyfeilio gan organ bib yr Amlosgfa, gofynnir am fathau eraill o gerddoriaeth yn aml, yn lle cerddoriaeth organ neu i ychwanegu ati.

Ymgynghorwyd ag Wesley Media ym mis Rhagfyr 2019 a chynhaliwyd adolygiad ganddynt o'r system gyfryngau a cherddoriaeth bresennol yn yr Amlosgfa. Amlinellodd eu hadroddiad dilynol y gallent gynnig yr holl gyfleusterau modern sydd eu hangen ar yr Amlosgfa, fel y disgrifir ym mharagraff 4.5 yr adroddiad.

Byddai ychwanegu sgriniau-gytûn Wesley Media yn y ddau gapel yn galluogi'r bobl mewn galar i wylio'r teyrngedau gweledol y mae Wesley Media wedi'u fformatio yn unol â'u gofynion. Dyma wasanaeth a ddarperir gan Amlosgfeydd gerllaw a osododd system Wesley Media yn ddiweddar gyda mantais yr ychwanegiadau mwy modern hyn at wasanaeth Wesley Media. Byddai gosod sgriniau-gytûn Wesley Media ym mhen uchaf a phen isaf y clawstr yn arwain at Gapel Crallo, yn manteisio ar gamera gweddarlledu Wesley Media a fyddai ymlaen yn awtomatig gyda theyrngedau gweledol, gan alluogi galarwyr sy'n sefyll yn yr ardal hon yn ystod ymgynulliadau mawr, i wylio'r gwasanaeth yn y capel yn hytrach na gwrando ar y siaradwyr yn unig. Byddai hyn yn caniatáu iddynt gymryd mwy o ran yn y gwasanaeth angladd.

I gloi ei chyflwyniad, cadarnhaodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth, o ganlyniad i anghenion unigryw'r gwasanaeth Amlosgfa a natur arbenigol y ddarpariaeth gerddoriaeth ddigidol, y byddai Rheolau Gweithdrefnau Contract Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gymwys, gydag ildiad yn cael ei gymhwyso drwy'r Cynllun Dirprwyo, yn unol â darpariaeth 3.2.3.

Gofynnodd Aelod i'r Swyddog a oedd cynllun wrth gefn, pe bai'r cyfarpar hen neu newydd a'r cyfleusterau cysylltiedig yn methu am unrhyw reswm.

Cadarnhaodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod gan yr Amlosgfa stoc o gofau bach USB a chryno ddisgiau ar y safle bob amser y gellid eu defnyddio i ddarparu cerddoriaeth a bod teuluoedd bob amser yn barod i gyflenwi'r rhain hefyd. Pe bai unrhyw ddarpariaethau llai newydd at y diben hwn yn ofynnol, yna gellid cyflawni hyn yn gyflym gydag isafswm cost, yn dilyn ymarfer caffael syml, sydyn.

Gofynnodd Aelod a oedd y gwaith sy'n angenrheidiol yn mynd i gael ei gynnal yn y flwyddyn ariannol hon neu'r flwyddyn ariannol nesaf a sut fyddai'r gwaith yn effeithio ar fusnes yr Amlosgfa.

Cynghorodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth y byddai'r gwaith yn cael ei gynnal yn unol â chynigion Cynllun Busnes 2020/21, ac y gobeithiwyd, y byddai'r gwaith sy'n angenrheidiol, cyn belled ag sy'n bosibl ac ymarferol, yn cael ei amserlennu o amgylch angladdau/amlosgiadau. Y sefyllfa waethaf bosib, ychwanegodd fyddai'r posibilrwydd o orfod cau'r prif Gapel dros dro er mwyn cwblhau'r gwaith ar amser, gyda Chapel Coety yn cael ei ddefnyddio yn ei le yn ystod y cyfnod hwn.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo gwariant ar y gwaith a amlinellir yn yr adroddiad gan Wesley Media Ltd, am gyfanswm o £41,696, ar y cyd â chymeradwyo'r Cynllun Busnes.

## 68. CYNLLUN BUSNES A FFIOEDD YR AMLOSGFA

Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgorau o'r Cynllun Busnes a'r rhaglen wariant ar gyfer 2020-21, sy'n cynnwys cynnydd arfaethedig i ffioedd amlosgi.

Cynghorodd fod Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i'r Cyd-bwyllgor ei gymeradwyo, sy'n cynnwys amcanion y gwasanaeth a phrosiectau cynnal a chadw a gwella arfaethedig, i wella a chynnal tir ac adeiladau'r Amlosgfa ar gyfer y cyfnod sydd i ddod.

Cadarnhaodd mai cyfanswm yr amlosgiadau ar gyfer 2019 oedd 1,625, yn cynnwys 1,004 o Ben-y-bont ar Ogwr, 143 o Fro Morgannwg a 400 o Rondda Cynon Taf, gyda 78 ddim yn preswylio yno. Mae cytundeb gydag Ysbyty Tywysoges Cymru ar gyfer amlosgi gweddillion ffetysol anhyfyw (NVF) wedi arwain at 11 amlosgiad cymunedol ychwanegol. Trefnwyd 8 amlosgiad NVF arall yn uniongyrchol â theuluoedd. Mae cofnodion ystadegol ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr i fis Rhagfyr 2018 a 2019 i'w cael yn y Cynllun Busnes er mwyn cymharu.

Mae'r Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2020-21 ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad, ac mae hwn yn amlinellu amcanion y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod. Rhoddodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth grynodeb ohono er budd yr Aelodau drwy echdynnu rhai o'r elfennau pwysicaf ohono.

Roedd y Cynllun Busnes yn ymdrin â'r meysydd allweddol canlynol yn dilyn ei gyflwyniad:

- Adran 1 - Gwasanaethu ein Cymuned
- Adran 2 - Datblygiadau i'r Gwasanaeth
- Adran 3 - Cyllidebau Refeniw
- Adran 4 - Adolygiad o'r Cynllun Busnes
- Adran 5 - Cysylltiadau

Nododd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod cost amlosgi'r Amlosgfa yn safle 267 allan o 299 o awdurdodau amlosgi, mewn tabl cynghrair o ffioedd cenedlaethol a gyhoeddwyd yn haf 2019 gan Gymdeithas Amlosgi Prydain Fawr (lle mae'r gost uchaf yn cael ei nodi gyntaf). Argymhellwyd bod y gost amlosgi yn cael ei chynyddu gan lefel chwyddiant o £680.70 i £696.40. Mae hyn yn seiliedig ar gynnydd cyffredinol mewn ffioedd o 2.3% (1% yn ogystal â'r Mynegai Pris Defnyddwyr ar 1.3% yn unol â'r ffigyrau mwyaf diweddar a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019). Mae'r tabl ym mharagraff 4.3 yr adroddiad yn cyflwyno cymhariaeth o ffioedd amlosgi cyfredol (2019-20) amlosgfeydd gerllaw.

Nododd Aelod o'r adroddiad fod amlosgiadau am ddim i'r rheiny dan 18 oed ar ddyddiau'r wythnos, ond nid ar gyfer unrhyw amlosgiadau ar gyfer y categori oedran hwn ar ddydd Sadwrn.

Cynghorodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth mai dim ond y gwasanaeth sylfaenol safonol oedd am ddim o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) ar ddyddiau'r wythnos i'r rheiny dan 18 oed, lle ar ddydd Sadwrn codir ffi ychwanegol i dalu am gostau staffio'r Amlosgfa i gefnogi a/neu weinyddu gwaith amlosgi y tu allan i oriau dyddiau'r wythnos arferol. Ychwanegodd fod rhai amlosgiadau ar ddydd Sadwrn, er hynny.

Nododd Aelod gyda phleser fod yr estyniad i'r Cwrt Blodau bellach yn mynd rhagddo.

Cadarnhaodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod caniatâd cynllunio wedi'i gadarnhau ar gyfer hyn a bod y gwaith cynllunio yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Ychwanegodd fod y cais cynllunio ar gyfer y prosiect hwn wedi cymryd mymryn yn hirach i'w baratoi nag y tybiwyd i ddechrau gan fod y strwythur yn Adeilad Rhestredig.

Cyfeiriodd Aelod at yr adroddiad a'r Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth gan gyfeirio at faterion megis, Asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Lleihau Mercwri ac mae Newid yn yr Hinsawdd yn rhywbeth arall sydd wedi cael ei ystyried hefyd wrth symud ymlaen, mewn perthynas â lefelau penodol o benderfyniadau gan yr Awdurdod. Gyda hyn i gyd yn y cof, gofynnodd a oedd gan yr Amlosgfa unrhyw gynlluniau neu weledigaeth hirdymor ynghylch cynhesu byd-eang ac allyriadau, etc.

Cynghorodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod y ffordd a'r modd y mae'r Amlosgfa yn gweithredu mewn nifer o agweddau ar ei gwaith, yn cael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth ac yn unol â'i thrwydded y mae'n ddarostyngedig i'w darpariaethau. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn monitro Amlosgfeydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau statudol ynghylch amddiffyn yr amgylchedd etc, mewn perthynas ag Amlosgfeydd a Chyfarpar Lleihau Mercwri, er enghraifft.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyd-bwyllgor:-

(1) Gymeradwyo'r Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth 2020-21
(2) Cymeradwyo'r ffi amlosgi ar gyfer 2020-21 o £696.40 a chynnydd cyffredinol yn yr holl ffioedd o 2.3%

69. RHAGLEN GYFARFODYDD 2020-21

Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad i'w gymeradwyo gan Aelodau ar gyfer y rhaglen gyfarfodydd a gynigiwyd ar gyfer y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2020-21.

Roedd y rhain fel a ganlyn:-

Dydd Gwener 12 Mehefin 2020 - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac Ymweliad â'r Safle;
Dydd Gwener 4 Medi 2020;
Dydd Gwener 5 Mawrth 2021.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r rhaglen gyfarfodydd ar gyfer 2020-21, fel yr amlinellir yn Adroddiad y Swyddog.

70. Y GYLLIDEB REFENIW A GYNIGIR 2020-21

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid, Rheoli Ariannol a Chau adroddiad, a'i ddiben oedd cynghori'r Cyd-bwyllgor ar y perfformiad ariannol a ragfynegir ar gyfer yr Amlosgfa yn 2019-20, a cheisio cymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor ar gyfer y Gyllideb a'r Ffioedd a Chostau a gynigir ar gyfer 2020-21.

Roedd Tabl 1 ym mharagraff 4.1 yr adroddiad, yn dangos y sefyllfa ariannol ar 31 Ionawr 2020 a'r alldro a ragfynegir ar gyfer 2019-20. Roedd hyn yn dangos tanwariant o £652,000 ar gyfer 2019-20.

Dywedodd mai £336,000 oedd y diffyg cyllidebol a ddisgwylid pan osodwyd y gyllideb. Dangosodd yr alldro a ragfynegir ar ddiwedd Ionawr arian dros ben o £316,000 a byddai hyn yn gofyn am drosglwyddo arian i Gronfeydd wedi'u Clustnodi'r Amlosgfa.

Ceir eglurhad o'r prif wahaniaethau rhwng y Gyllideb a'r Alldro a Ragfynegir ar ffurf pwynt bwled ym mharagraff 4.2 yr adroddiad.

Dangosodd Tabl 2 yn yr adroddiad ddadansoddiad o'r Gyllideb Cynnal a Chadw Arfaethedig ynghyd â'r Gwahaniaethau a'r Alldro a Ragfynegir ar gyfer 2019-20. Amlinellodd hyn danwariant ar gyfer y Cwrt Blodau o £272,000 a thanwariant tebyg ar gyfer Golau Stryd o £300,000.

Dangosodd paragraff 4.3 yr adroddiad (Tabl 3) y Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2020-21. Gosodwyd ar ddiffyg o £395,000.

Roedd Tabl 4 ym mharagraff 4.6 yr adroddiad yn cynnwys manylion Gofynion Gwariant Cyfalaf Cynnal a Chadw Arfaethedig, a thelid am y rhain gyda'r gyllideb Costau Ariannu Cyfalaf a nodwyd yn Nhabl 3 y cyfeirir ato uchod.

Roedd cyllidebau incwm wedi'u paratoi gan gymryd y bydd cynnydd cyffredinol o 2.3% yn y ffioedd (1% yn ogystal â'r Mynegai Pris Defnyddwyr ar 1.3%), ar sail y lefelau presennol o weithgarwch. Roedd Tabl Ffioedd arfaethedig 2020-21 ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Dangosodd paragraff 4.8 yr adroddiad yr effaith ar falans cronnol y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2020-21 yn Nhabl 5. Rhagfynegwyd y bydd balans cronnol o £1,675, 000 ar 31 Mawrth 2020. Ystyriwyd bod balans cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2021 yn ddigonol er mwyn cynnal ac amddiffyn y gwasanaeth, o ystyried galw annisgwyl neu argyfyngau.

Yn olaf, cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid, Rheoli Ariannol a Chau na fyddai angen benthyciad na chyfraniad gan awdurdodau etholedig ar gyfer y gwariant Cyfalaf yn 2020-21. Byddai eitemau gwariant cyfalaf ar gyfer 2020-21 yn Nhabl 4, paragraff 4.6 yr adroddiad, yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan gyfraniadau refeniw a'r gwarged o flynyddoedd blaenorol.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyd-bwyllgor:-

(1) Nodi'r perfformiad ariannol a ragfynegir ar gyfer 2019-20.
(2) Cadarnhau a chymeradwyo'r gyllideb refeniw i'w mabwysiadu yn 2020-21.
(3) Cymeradwyo'r cynnydd yn y ffioedd a chostau o 1 Ebrill 2020, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

71. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:55